Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# Absenoldeb Cymorth Tadolaeth/Mamolaeth



**DATBLYGU SEFYDLIADOL**

Cyhoeddwyd: Mawrth 2024

# Rheoli Fersiwn

Bwriedir y ddogfen hon ar gyfer:

☐ Staff y Cyngor yn unig ☐ Staff seiliedig mewn ysgolion yn unig ☒ Staff y Cyngor a staff seiliedig mewn ysgolion

| Fersiwn | Newidiadau Allweddol | Cymeradwywyd gan |
|---|---|---|
| Ebrill 2020 | Ailfformatio yn unig | Tîm Rheoli Adrannol |
| Hydref 2022 | Adolygiad a drefnwyd; moderneiddio/diweddaru iaith/manylion a thynnu unrhyw ddyblygu | Tîm Rheoli Adrannol |
| Mawrth 2024 | Diweddarwyd i adlewyrchu Rheoliadau Absenoldeb Tadolaeth (Diwygiad) 2024 (ar gyfer genedigaethau a ddisgwylir ar ôl 6/4/24 a mabwysiadu ar neu ar ôl 6/4/24). | Tîm Rheoli Adrannol |

Gall y ddogfen hon gael ei hadolygu a'i diwygio ar unrhyw amser a heb unrhyw ymgynghoriad mewn ymateb i ofynion cyfreithiol neu mewn ymateb i ofyniad sefydliadol a lle nad yw'r newidiadau yn adlewyrchu newid sylfaenol neu'n effeithio ar ysbryd neu fwriad y ddogfen.

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 3
2. Gwneud Cais am Absenoldeb Tadolaeth Cyffredin ..... 3
3. Gwybodaeth Gyffredinol ..... 3

ADRAN 1: ABSENOLDEB TADOLAETH CYFFREDIN ..... 5

4. Cymhwyster ..... 5
5. Hawl ..... 5
6. Tâl Tadolaeth Cyffredin ..... 6
7. Cyfrifoldebau Cyflogeion ..... 6
8. Yr Hawl i Ddychwelyd i'r Gwaith ..... 7

ADRAN 2: ABSENOLDEB CYMORTH MAMOLAETH ..... 8

9. Cymhwyster ..... 8
10. Hawl ..... 8
11. Tâl Cymorth Mamolaeth ..... 9
12. Cyfrifoldebau Cyflogeion ..... 9
13. Yr Hawl i Ddychwelyd i'r Gwaith ..... 10

Ffurflen PL1: Ffurflen Absenoldeb Tadolaeth ..... 11

Ffurflen PL1A: Ffurflen Absenoldeb Tadolaeth ..... 12

Ffurflen MSL1: Ffurflen Absenoldeb Cymorth Mamola ..... 13

# 1. Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn anelu i osod mor syml ag sydd modd yr hawliau cymorth tadolaeth/mamolaeth a buddion sydd ar gael i gyflogeion a'r amodau sy'n weithredol. Dylai cyflogeion ddarllen yr wybodaeth ddilynol yn ofalus, gan gyfeirio at yr adran berthnasol i'w cyfnod gwasanaeth ac wedyn lenwi a dychwelyd y ffurflen gais berthnasol.

# 2. Gwneud Cais am Absenoldeb Tadolaeth Cyffredin

- Os yw cyflogai wedi gweithio'n barhaus i'r Cyngor am 26 wythnos yn arwain i'r 15fed wythnos cyn y disgwylir geni'r babi, neu ddiwedd yr wythnos hysbysiad (yr wythnos y caiff mabwysiadwr ei hysbysu eu bod wedi paru gyda phlentyn) yn achos mabwysiadu/geni plentyn drwy drefniant benthyg croth *(surrogacy)*, mae ganddynt hawl i 2 wythnos o absenoldeb tadolaeth. Bydd un wythnos ar dâl llawn sef eu hawl contractiol i dâl dan ddarpariaethau Absenoldeb Cymorth Mamolaeth, a bydd yr ail wythnos ar Dâl Tadolaeth Statudol os ydynt yn ateb y meini prawf ar gyfer cymhwyster. Mae manylion pellach ar gael yn Adran 1.

- Os yw cyflogai wedi gweithio i'r Cyngor am lai na 26 wythnos yn arwain i mewn i'r 15fed wythnos cyn y disgwylir geni'r babi, neu ddiwedd yr wythnos hysbysiad (yr wythnos y caiff mabwysiadwr ei hysbysu eu bod wedi paru gyda phlentyn) yn achos mabwysiadu/trefniant benthyg croth, mae ganddynt hawl i un wythnos o absenoldeb ar dâl, eu hawl contractiol i dâl dan ddarpariaethau Absenoldeb Cymorth Mamolaeth. Gweler Adran 1 i gael manylion pellach ar sut i wneud cais.

- Mae darpariaethau Absenoldeb Cymorth Mamolaeth ar gael i gyflogeion nad ydynt yn gymwys am Absenoldeb/Tâl Tadolaeth Statudol sy'n cymhwyso fel gofalwyr a enwebwyd. Mae manylion pellach ar gael yn Adran 2.

# 3. Gwybodaeth Gyffredinol

- Yn yr achosion dilynol bydd cyflogeion cymwys yn cadw eu hawl i absenoldeb tadolaeth, ond mae'n rhaid cymryd hyn o fewn 8 wythnos o ddiwedd yr wythnos pryd digwyddodd y digwyddiad perthnasol. Eithriad i hyn yw os cafodd hysbysiadau priodol eisoes eu cyflwyno cyn i'r digwyddiad perthnasol ddigwydd ac os felly gall y cyflogai gymryd yr absenoldeb hwnnw tu allan i'r ffenestr 8 wythnos
    - os caiff y cyflogai ei hysbysu na chaiff y plentyn mwyach ei leoli gyda'r person yr oedd y plentyn i gael ei leoli gyda nhw ar gyfer mabwysiadu;
    - os yw'r plentyn yn marw neu os oes genedigaeth farw ar ôl 24 wythnos; neu
    - os caiff y plentyn ei ddychwelyd ar ôl cael ei leoli ar gyfer mabwysiadu.

- **Genedigaeth Cyn Amser:** Pan gaiff babi ei eni cyn amser cyn y dyddiad yr

oedd cyflogai wedi bwriadu dechrau eu habsenoldeb, dylent adael i'r adran wybod cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ac o fewn 28 diwrnod o union ddyddiad y geni.

- **Marwolaeth Babi a Genedigaeth Farw:** Os yw babi yn marw neu'n cael ei eni yn farw, bydd y Cynllun Tadolaeth yn dal i fod yn weithredol ar gyfer cyflogeion sy'n cymhwyso.

- **Wythnos Ddisgwyliedig Geni Plentyn:** Wythnos ddisgwyliedig geni plentyn yw'r wythnos, yn dechrau ar y dydd Sul, pryd y disgwylir y caiff y babi ei eni.

- **Amser Di-dâl Bant i Fynd gyda'r Farm i Apwyntiadau Cynenedigol:** Er mwyn derbyn yr hawl hwn mae'n rhaid i'r cyflogai fod â "pherthynas sy'n cymhwyso" gyda'r fam neu'r plentyn yn y groth. Mae'n cynnwys y bobl ddilynol:
    - Gŵr neu bartner sifil
    - Partner, yn cynnwys partneriaid o'r un rhyw, sy'n byw gyda chi
    - Tad y plentyn yn y groth
    - Rhiant y plentyn yn y groth drwy adran 42 neu 43 Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008 (caiff partneriaid yr un rhyw eu trin fel rhiant yn achos atgynhyrchu gyda chymorth)
    - Darpar ymgeisydd am orchymyn rhiant dan adran 54 Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg yng nghyswllt y plentyn yn y groth mewn achosion o drefniant benthyg croth.

  Mae'r hawl i amser di-dâl bant o hyd at chwech awr a hanner ar ddim mwy na dau achlysur.

- **Polisïau Cyfeillgar i Deuluoedd:** Mae Absenoldeb a Thâl Tadolaeth yn rhan o becyn o hawliau a buddion a gynlluniwyd i roi cefnogaeth i dadau, mamau a'u partneriaid sy'n gweithio. Cysylltwch â Datblygu Sefydliadol os yw cyflogeion angen mwy o wybodaeth ar yr hawliau a'r buddion hyn.

- **Absenoldeb Rhieni a Rennir:** Mae Absenoldeb Rhieni a Rennir yn galluogi cyflogeion sydd â chyfrifoldebau rhiant ar gyfer babanod neu blant newydd eu mabwysiadau i rannu absenoldeb os dymunant wneud hynny, cyhyd nad yw'r absenoldeb cyfun yn fwy na chyfanswm o 52 wythnos (llai unrhyw absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu/trefniant benthyg croth a gymerwyd eisoes). Nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer rhieni sy'n cael plentyn drwy drefniant benthyg croth dan y ddeddfwriaeth hon; fodd bynnag mae'r cynllun yn rhoi'r un hawliau i rieni geni plentyn drwy drefniant benthyg croth â rhieni mabwysiadol. Mae manylion pellach ar gael yn y Canllawiau Absenoldeb Rhieni a Rennir.

# ADRAN 1: ABSENOLDEB TADOLAETH CYFFREDIN

**Cyflogeion a gafodd eu cyflogi'n barhaus gan y Cyngor am 26 wythnos yn arwain i'r 15fed wythnos cyn y disgwylir geni'r babi, neu ddiwedd yr wythnos hysbysiad (yr wythnos y caiff mabwysiadwr ei hysbysu ei bod wedi eu paru gyda phlentyn) yn achos mabwysiadu/trefniant benthyg croth.**

## 4. Cymhwyster

Mae'r hawliau hyn yn weithredol pa bynnag oriau y mae cyflogeion yn eu gweithio, cyn belled â'u bod yn bodloni'r amodau cymhwyso dilynol:

- Mae'n rhaid iddynt fod â neu'n disgwyl cael cyfrifoldeb am fagu'r plentyn a rhaid iddynt fod yn dad biolegol y blentyn neu'n ŵr y fam neu bartner rhiant biolegol y plentyn. (Partner yw rhywun sy'n byw gyda mam y babi mewn perthynas deuluol barhaus ond heb fod yn berthynas uniongyrchol);
  **NEU**
  Rhaid iddynt fod yn briod neu bartner y mabwysiadwr/darpar riant (mewn achosion o drefniant benthyg croth). (Partner yw rhywun sy'n byw gyda mabwysiadwr/rhiant y plentyn mewn perthynas deuluol barhaus ond heb fod yn perthyn yn uniongyrchol).
- Mae'n rhaid iddynt fod wedi gweithio'n barhaus ar gyfer y Cyngor am 26 wythnos yn arwain i'r 15fed wythnos cyn y disgwylir geni'r babi, neu ddiwedd yr wythnos hysbysiad (yr wythnos yr hysbysir y mabwysiadwr eu bod wedi eu paru gyda phlentyn) yn achos mabwysiadu/trefniant benthyg croth.
- Eu bod yn cymryd amser i ffwrdd i gefnogi'r fam neu i ofalu am y babi newydd/plentyn (ni fedrir cymryd absenoldeb ar gyfer unrhyw ddiben arall).

## 5. Hawl

Os yw cyflogai yn cyflawni'r meini prawf ar gymhwyster bydd ganddynt hawl i ddwy wythnos o absenoldeb tadolaeth statudol naill ai fel un bloc dwy wythnos neu ddau floc un wythnos ar wahân.

Ni all absenoldeb ddechrau nes y bydd y plentyn wedi ei eni/lleoli, fel arall gallant ddewis dechrau'r absenoldeb:

- O ddyddiad geni/lleoli y plentyn (p'un ai yw hyn yn gynharach neu hwyrach na'r disgwyl), neu
- O nifer o ddyddiau neu wythnosau a ddewiswyd ar ôl dyddiad geni/lleoli y plentyn (p'un ai yw hyn yn gynharach neu'n hwyrach na'r disgwyl), neu
- O ddyddiad a ddewiswyd sy'n rhaid iddo fod ar ôl dechrau'r wythnos y disgwylir yr enedigaeth/lleoliad.

Gall absenoldeb ddechrau ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos ar neu yn dilyn genedigaeth/lleoli plentyn a gellir ei gymryd ar unrhyw amser yn y 52 wythnos ar ôl geni'r plentyn (neu ddiwrnod cyntaf Wythnos Ddisgwyliedig Geni'r Plentyn os caiff y

plentyn ei eni'n gynnar). Yn achos mabwysiadu yn y Deyrnas Unedig, gellir cymryd yr absenoldeb o fewn y 52 wythnos ar ôl y dyddiad y cafodd y plentyn ei leoli gyda'r mabwysiadwr. Mewn achos o fabwysiadu o dramor, gellir cymryd yr absenoldeb o fewn y 52 wythnos o'r dyddiad mae'r plentyn yn cyrraedd Prydain Fawr.

Uchafswm absenoldeb o 2 wythnos fydd ar gael i gyflogeion p'un ai os caiff fwy nag un plentyn ei eni fel canlyniad i'r un beichiogrwydd, neu os caiff mwy nag un plentyn ei leoli ar gyfer mabwysiadu/trefniant benthyg croth dan yr un trefniant.

# 6. Tâl Tadolaeth Cyffredin

Yr Hawl i Dâl Tadolaeth yw:

- Wythnos 1 ar dâl llawn fydd yn cynnwys Tâl Tadolaeth Statudol
- Wythnos 2 ar Dâl Tadolaeth Statudol (dim Tâl Tadolaeth Galwedigaethol)

Caiff cyfradd gyfredol Tâl Tadolaeth Statudol ei ddiwygio'n flynyddol. Mae'r cyfraddau presennol ar gael ar wefan https://www.gov.uk/paternity-pay-leave/pay.

I fod yn gymwys am Dâl Tadolaeth Statudol mae'n rhaid i gyflogai:

- Bod wedi ei gyflogi'n barhaus gan y Cyngor am o leiaf 26 wythnos yn parhau i'r 15fed wythnos cyn y disgwylir geni'r babi neu ddiwedd yr wythnos hysbysiad (yr wythnos yr hysbysir y mabwysiadwr eu bod wedi eu paru gyda plentyn) yn achos mabwysiadu/trefniant benthyg croth.
- Bod wedi eu cyflogi gan y Cyngor o'r 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir geni'r babi/lleoliad.
- Bod ag enillion wythnosol cyfartalog na ddylai fod yn is na'r terfyn enillion is ar gyfer talu Yswiriant Gwladol sy'n weithredol yn y 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir geni'r babi.
- Rhoi ffurflen MAT B1 i Datblygu Sefydliadol ynghyd â'r ffurflen gais Absenoldeb Tadolaeth, gan sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r cyfnodau hysbysiad perthnasol.
- Yn achos mabwysiadu, dylid rhoi 'tystysgrif paru' gan yr asiantaeth fabwysiadu i Datblygu Sefydliadol ac ar gyfer trefniant benthyg croth, ddogfennau yn dystiolaeth bod trefniant benthyg croth yn ei le, a allai fod yn gadarnhad gan ymarferydd meddygol, neu gopi o gytundeb cyfreithiol.

Os nad yw cyflogai yn gymwys am Dâl Tadolaeth Statudol, bydd Cyflogres yn rhoi ffurflen SPP1 iddynt fydd yn esbonio'r rhesymau pam na all y Cyngor dalu Tâl Tadolaeth Statudol.

# 7. Cyfrifoldebau Cyflogeion

Fel gofyniad statudol mae'n rhaid i gyflogeion hysbysu'r Cyngor o'u bwriad i gymryd Absenoldeb Tadolaeth erbyn diwedd y 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir geni'r plentyn/o fewn 7 diwrnod o'r mabwysiadwr yn cael eu hysbysu o gael eu paru gyda phlentyn. Mae angen i gyflogeion roi 28 diwrnod o hysbgysiad cyn mae eu

habsenoldeb i fod i ddechrau, neu os nad yw hyn yn bosibl, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Os byddai cyflogai yn ddiweddarach yn dymuno diwygio'r dyddiad y bydd eu Habsenoldeb Tadolaeth yn dechrau, mae angen iddynt hysbysu'r Cyngor cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ac o leiaf 28 diwrnod cyn i'w habsenoldeb ddechrau. (Dylid nodi na all cyflogeion newid hyd yr absenoldeb y gwneir cais amdano). Dylai ceisiadau ar gyfer Absenoldeb Tadolaeth gael eu gwneud drwy lenwi ffurflen gais PL1 neu PL1a (a gynhwysir yn y ddogfen hon) a'i dychwelyd i Datblygu Sefydliadol o fewn yr amserlen a nodir uchod.

Ar y ffurflen hon mae angen i gyflogeion nodi:

- Wythnos y disgwylir geni'r plentyn/y dyddiad yr hysbyswyd y mabwysiadwyd eu bod wedi eu paru gyda phlentyn (neu y cytunwyd ar y trefniant benthyg croth).
- Y dyddiad y dymunant i'w Habsenoldeb Mamolaeth ddechrau.
- P'un ai ydynt eisiau cymryd un neu ddwy wythnos o absenoldeb.
- Rhoi ffurflen MAT B1 a gyhoeddwyd naill ai gan feddyg neu fydwraig, fydd yn nodi'r wythnos y disgwylir geni'r plentyn. Caiff ffurflen MAT B1 ei llofnodi gan feddyg neu bydwraig a'i chyhoeddi ar ôl 20fed wythnos beichiogrwydd.
- Tystiolaeth ddogfennol ar wedd 'tystysgrif paru' gan yr asiantaeth fabwysiadu neu dystiolaeth ddogfennol i ddangos fod trefniant benthyg croth yn ei le.

Dylid nodi na all y Cyngor brosesu unrhyw Absenoldeb Tadolaeth nes bod cyflogai yn rhoi ei ffurflen gais i Datblygu Sefydliadol a ffurflen MAT B1 neu dystiolaeth ddogfennol mabwysiadu/trefniant benthyg croth. Gall cyflogeion ddioddef colled neu ohirio wrth dalu unrhyw fuddion os nad ydynt yn ateb y gofynion hysbysiad.

# 8. Yr Hawl i Ddychwelyd i'r Gwaith

Bydd gan gyflogeion hawl i ddychwelyd i'r un swydd yn dilyn Absenoldeb Tadolaeth Cyffredin.

# ADRAN 2: ABSENOLDEB CYMORTH MAMOLAETH

**Cyflogeion NA chafodd eu cyflogi'n barhaus gan y Cyngor am 26 wythnos yn arwain i'r 15fed wythnos cyn y disgwylir geni'r babi, neu ddiwedd yr wythnos hysbysiad (yr wythnos y caiff mabwysiadwr ei hysbysu ei bod wedi eu paru gyda phlentyn) yn achos mabwysiadu/trefniant benthyg croth.**

**Cyflogeion a enwebir gan y fam feichiog fel prif ddarparydd cymorth.**

## 9. Cymhwyster

Mae'r hawliau hyn yn weithredol pa bynnag oriau y mae cyflogeion yn eu gweithio, cyn belled â'u bod yn bodloni'r amodau cymhwyso dilynol:

**NAILL AI**

- Mae'n rhaid iddynt fod â neu'n disgwyl cael cyfrifoldeb am fagu'r plentyn a rhaid iddynt fod yn dad biolegol y blentyn neu'n ŵr y fam neu bartner rhiant biolegol y plentyn. *(Partner yw rhywun sy'n byw gyda mam y babi mewn perthynas deuluol barhaus ond nid yn berthynas uniongyrchol);*
- Neu rhaid iddynt fod yn briod neu bartner y mabwysiadwr/darpar riant (mewn achos o drefniant benthyg croth). (Partner yw rhywun sy'n byw gyda mabwysiadwr/rhiant y plentyn mewn perthynas deuluol barhaus ond nid yn perthyn yn uniongyrchol).

**NEU**

- Maent yn ofalwr a enwebir gan y fam fel eu prif ddarparydd cymorth ar neu o amgylch amser yr enedigaeth/lleoli. Yn y rhan fwyaf o achosion byddai gofal a chymorth o'r fath yn cael eu darparu gan y tad/partner, fodd bynnag gall perthynas neu rywun sydd â pherthynas ofalu gyda'r fam a/neu'r plentyn gyflawni'r rôl.

**AC YM MHOB ACHOS**

- Eu bod yn cymryd amser bant i gefnogi'r fam neu i ofalu am y babi/plentyn newydd (ni ellir cymryd absenoldeb ar gyfer unrhyw ddiben arall).

## 10. Hawl

Os yw cyflogai yn cyflawni'r meini prawf ar gymhwyster bydd ganddynt hawl i gymryd un wythnos o absenoldeb (mae'n rhaid cymryd hyn mewn bloc sengl, ni ellir cymryd dyddiau yma ac acw).

Ni all absenoldeb ddechrau cyn geni/lleoli y plentyn,  fel arall gallant ddewis dechrau'r absenoldeb:

- O ddyddiad geni/lleoli y plentyn (p'un ai yw hyn yn gynharach neu hwyrach na'r disgwyl), neu
- O nifer o ddyddiau neu wythnosau a ddewiswyd ar ôl dyddiad geni/lleoli y plentyn (p'un ai yw hyn yn gynharach neu'n hwyrach na'r disgwyl), neu

- O ddyddiad a ddewiswyd sy'n rhaid iddo fod ar ôl dechrau'r wythnos y disgwylir yr enedigaeth/lleoli.

Gall absenoldeb ddechrau ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos ar neu yn dilyn genedigaeth/lleoli plentyn a gellir ei gymryd ar unrhyw amser yn y 52 wythnos ar ôl geni'r plentyn (neu ddiwrnod cyntaf Wythnos Ddisgwyliedig Geni'r Plentyn os caiff y plentyn ei eni'n gynnar). Yn achos mabwysiadu yn y Deyrnas Unedig, gellir cymryd yr absenoldeb o fewn y 52 wythnos ar ôl y dyddiad y cafodd y plentyn ei leoli gyda'r mabwysiadwr. Mewn achos o fabwysiadu o dramor, gellir cymryd yr absenoldeb o fewn y 52 wythnos o'r dyddiad mae'r plentyn yn cyrraedd Prydain Fawr.

Dim ond un cyfnod o absenoldeb fydd ar gael i gyflogeion p'un ai os gaiff mwy nag un plentyn ei eni fel canlyniad i'r un beichiogrwydd, neu os caiff mwy na un plentyn ei leoli ar gyfer mabwysiadu/trefniant benthyg croth dan yr un trefniant.

# 11. Tâl Cymorth Mamolaeth

Yr hawl yw 1 wythnos ar dâl llawn.

# 12. Cyfrifoldebau Cyflogeion

Fel gofyniad statudol mae'n rhaid i gyflogeion hysbysu'r Cyngor o'u bwriad i gymryd Absenoldeb Cymorth Mamolaeth erbyn diwedd y 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir geni'r plentyn/o fewn 7 diwrnod o'r mabwysiadwr yn cael eu hysbysu o gael eu paru gyda phlentyn. Mae'n ofynnol i gyflogeion roi 28 diwrnod o rybudd cyn y mae eu habsenoldeb i fod i ddechrau, neu os nad yw hyn yn bosibl, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Os byddai cyflogai yn ddiweddarach yn dymuno diwygio'r dyddiad y bydd eu Habsenoldeb Cymorth Mamolaeth yn dechrau, mae angen iddynt hysbysu'r Cyngor cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ac o leiaf 28 diwrnod cyn i'w habsenoldeb ddechrau. Dylai ceisiadau ar gyfer Absenoldeb Cymorth Mamolaeth gael eu gwneud drwy lenwi ffurflen gais MSL 1 (a gynhwysir yn y ddogfen hon) a'i dychwelyd i Datblygu Sefydliadol o fewn yr amserlen a nodir uchod.

Ar y ffurflen hon mae angen i gyflogeion nodi:

- Wythnos y disgwylir geni'r plentyn/y dyddiad yr hysbyswyd y mabwysiadwyr eu bod wedi eu paru gyda phlentyn (neu y cytunwyd ar y trefniant benthyg croth).
- Y dyddiad y dymunant i'w Habsenoldeb Cymorth Mamolaeth ddechrau.
- Rhoi ffurflen MAT B1 a gyhoeddwyd naill ai gan feddyg neu fydwraig, fydd yn nodi'r wythnos y disgwylir geni'r plentyn. Caiff ffurflen MAT B1 ei llofnodi gan feddyg neu bydwraig a'i chyhoeddi ar ôl 20fed wythnos beichiogrwydd.
- Dogfen tystiolaeth ar wedd 'tystysgrif paru' gan yr asiantaeth fabwysiadu neu dystiolaeth ddogfennol i ddangos fod trefniant benthyg croth yn ei le.
- Yn achos gofalwr a enwebir, dylai cyflogeion sicrhau fod y fam feichiog yn cadarnhau mai nhw yw'r gofalwr a enwebir drwy lofnodi'r ffurflen gais. Bydd hefyd angen iddynt gyd-arwyddo'r datganiad a chadarnhau mai nhw yw'r unig brif ofalwr yn absenoldeb y tad.

Bydd angen i reolwyr awdurdodi’r ffurflen gais a chadarnhau bod amseriad yr absenoldeb yn dderbyniol. Pe na fedrid rhoi Absenoldeb Cymorth Mamolaeth ar y dyddiadau y gofynnwyd amdano oherwydd anghenion y Gwasanaeth, caiff dyddiau arall sy’n addas i’r ddwy ochr eu cytuno mor agos at y dyddiadau a geisiwyd ag sydd modd.

Yn achos gofalwr a enwebir, bydd angen bodloni’r rheolwr mai’r cyflogai yw’r unig brif ofalwr yn absenoldeb y tad.

Dylid nodi na all y Cyngor brosesu unrhyw Absenoldeb Cymorth Mamolaeth nes bod cyflogai yn rhoi eu ffurflen gais a ffurflen MAT B1 neu ddogfen yn dystiolaeth mabwysiadu/trefniant benthyg croth perthnasol i Datblygu Sefydliadol. Gall cyflogeion dioddef colled neu ohiriad wrth dalu unrhyw fuddion os nad ydynt yn cyflawni gofynion yr hysbysiad.

# 13. Yr Hawl i Ddychwelyd i’r Gwaith

Bydd gan gyflogeion hawl i ddychwelyd i’r un swydd yn dilyn Absenoldeb Cymorth Mamolaeth.

FFURFLEN PL1

# Absenoldeb Tadolaeth

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**DYLID LLENWI A DYCHWELYD Y FFURFLEN HON AT HRpayroll@blaenau-gwent.gov.uk**
**GYDA CHOPI O FFURFLEN MAT B1 Y FAM FEICHIOG NEU**
**DYSTIOLAETH DDOGFENNOL BERTHNASOL MABWYSIADU/TREFNIANT BENTHYG CROTH**

## ADRAN 1 – MANYLION PERSONOL

Enw Llawn:

Teitl Swydd:

Cyfeirnod Personol (dylid nodi fod hyn yn orfodol):

## ADRAN 2 – HYSBYSIAD AM HAWL I GYMRYD ABSENOLDEB

☐ Rwy'n eich hysbysu am fy hawl a bwriad i gymryd Absenoldeb Tadolaeth (mae angen gwneud hyn erbyn diwedd y 15fed wythnos cyn wythnos ddisgwyliedig geni'r plentyn/o fewn 7 diwrnod o fabwysiadwr yn cael hysbysiad iddynt gael eu paru gyda phlentyn).

## ADRAN 3 – DYDDIADAU ABSENOLDEB

Disgwylir y babi ar (wythnos ddisgwyliedig geni'r plentyn/dyddiad lleoli plentyn:

Os cafodd y babi ei eni, rhowch ddyddiad yr enedigaeth:

**Mae angen i gyflogeion roi 28 diwrnod o hysbysiad o ddyddiadau absenoldeb, ond llenwch y dilynol os gwyddoch:**

Nifer wythnosau Absenoldeb Tadolaeth rwy'n eu cymryd: ☐ 1 wythnos ☐ 2 wythnos

Wythnos 1: Dyddiad dechrau/diwedd Absenoldeb Tadolaeth (wythnosau llawn yn unig))

Wythnos 2: Dyddiad dechrau/diwedd Absenoldeb Tadolaeth (wythnosau llawn yn unig)

## ADRAN 4 - DATGANIAD

☐ Amgaeaf gopi o ffurflen MAT B1 y fam feichiog neu dystiolaeth ddogfennol mabwysiadu/trefniant benthyg croth..

Mae'n rhaid i chi fedru ticio pob un o'r tri blwch ar gyfer Tâl Tadolaeth Statudol ac Absenoldeb Tadolaeth.

**YR WYF YN DATGAN :**

☐ Mai fi yw tad biolegol y babi/yn briod gyda'r fam, neu'n byw gyda'r fam mewn perthynas deuluol barhaus ond nad wyf yn perthyn yn uniongyrchol.

☐ Bod gennyf gyfrifoldeb am fagwraeth y plentyn.

☐ Y byddaf yn cymryd amser bant i gefnogi'r fam neu i ofalu am y plentyn.

Llofnod yr Ymgeisydd: Dyddiad:

Awdurdodiad y Rheolwr: Dyddiad:

FFURFLEN PL1a

# Ffurflen Absenoldeb Tadolaeth

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**DIM OND OS NA CHAFODD EICH DYDDIADAU ABSENOLDEB EU CYFLWYNO EISOES AR FFURFLEN PL1 (FFURFLEN ABSENOLDEB TADOLAETH) Y MAE ANGEN LLENWI'R FFURFLEN HON**

**AR ÔL EU LLENWI DYLID DYCHWELYD FFURFLENNI AT HRpayroll@blaenau-gwent.gov.uk**

## ADRAN 1 – MANYLION PERSONOL

Enw Llawn:

Teitl Swydd:

Cyfeirnod Personol (dylid nodi fod hyn yn orfodol):

## ADRAN 2 – DYDDIADAU ABSENOLDEB (RHAID CYFLWYNO 28 DIWRNOD CYN I'R ABSENOLDEB DDECHRAU)

Dyddiad geni y babi/dyddiad lleoli'r plentyn:

Y dyddiadau dilynol yw: ☐ Fy wythnos 1af ☐ Fy 2il wythnos

Dyddiadau dechrau/gorffen Absenoldeb Tadolaeth (wythnosau llawn yn unig)

Llofnod Ymgeisydd: Dyddiad:

Awdurdodiad Rheolwr: Dyddiad:

FFURFLEN MSL1

# Absenoldeb Cymorth Mamolaeth/Mabwysiadu/ Trefniant Benthyg Croth

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**DYLAI'R FFURFFLEN HON GAEL EI LLENWI A'I DYCHWELYD I HRpayroll@blaenau-gwent.gov.uk**
**GYDA CHOPI O FFURFLEN MAT B1 Y FAM FEICHIOG**
**NEU DDOGFENNAU PERTHNASOL YN DYSTIOLAETH O'R MABWYSIADU/TREFNIANT BENTHYG CROTH**

## ADRAN 1 – MANYLION PERSONOL

Enw Llawn: ____________________

Teitl Swydd: ____________________

Cyfeirnod Personol (dylid nodi fod hyn yn orfodol): ____________________

## ADRAN 2 – HYSBYSIAD O HAWL I GYMRYD ABSENOLDEB

☐ Rwy'n fy hysbysu am eich hawl a bwriad i gymryd Absenoldeb Cymorth Mabolaeth/Mabwysiadu/Trefniant Benthyg Croth (mae angen gwneud hyn erbyn diwedd y 15fed wythnos cyn wythnos ddisgwyliedig geni'r plentyn/o fewn 7 diwrnod o'r mabwysiadwr yn cael hysbysiad eu bod wedi eu paru gyda phlentyn.

## ADRAN 3 – DYDDIAU ABSENOLDEB

Disgwylir y babi ar (wythnos ddisgwyliedig geni'r plentyn/dyddiad lleoli y plentyn ____________________

Os cafodd y babi ei eni, rhowch union ddyddiad y geni ____________________

Hoffwn i fy absenoldeb cymorth mamolaeth/mabwysiadu/trefniant benthyg croth ddechrau ar: ____________________

## ADRAN 4 - DATGANIAD

☐ Amgaeaf gopi o ffurflen MAT B1 y fam feichiog neu ddogfennau tystiolaeth mabwysiadu/trefniant benthyg croth perthnasol..

**Ar gyfer absenoldeb a thâl cymorth mamolaeth,** mae'n rhaid i chi fedru ticio **DAU o'r tri blwch isod i fod yn gymwys:**

☐ Fi yw'r gofalwr a enwebwyd gan y fam fel ei phrif ddarparydd cymorth ar, neu o amgylch, adeg yr enedigaeth.

☐ **NEU** mae gennyf gyfrifoldeb am fagwraeth y plentyn.

☐ **A** byddaf yn cymryd amser bant i gefnogi'r fam neu ofalu am y plentyn.

**Ar gyfer absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth, mae'n rhaid i chi fedru ticio pob un o'r TRI** blwch isod i fod yn gymwys:

☐ Fi yw cymar neu bartner y mabwysiadwr/rhiant.

☐ Mae gennyf gyfrifoldeb am fagwraeth y plentyn.

☐ Rwy'n cymryd amser bant i gefnogi'r fam neu ofalu am y plentyn.

## ADRAN 3 – DATGANIAD GOFALWR A ENWEBIR

Adeg geni/lleoli y plentyn, cefais fy enwebu fel Prif Ddarparydd Cymorth ar gyfer: ____________________

Os ydych yn ansicr am y diffiniad o ofalwr enwebedig neu angen unrhyw eglurhad pellach cyn gwneud y datganiad hwn, cysylltwch â Datblygu Sefydliadol. **Dylid nodi, os cawsoch eich enwebu fel gofalwr, fod yn rhaid i chi sicrhau mai chi yw'r UNIG BRIF OFALWR YN ABSENOLDEB Y TAD/PARTNER.** Gall disgrifiad heb fod yn wir arwain at weithredu disgyblaethol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod y Fam Feichiog/Mabwysiadwr: | | Dyddiad: | |
| Llofnod yr Ymgeisydd: | | Dyddiad: | |
| Awdurdodiad y Rheolwr: | | Dyddiad: | |

Mawrth 2024